

## **Araith yr Aelod Portffolio i Gynhadledd Adeiladu â Phren - Cymru**

Foneddigion a Boneddigesau,

Dychmygwch brosiect lle gallwch blannu hedyn, ei wyllo'n tyfu'n goeden, meithrin a chynaeafu honno, gan ddefnyddio'r pren i adeiladu cartref newydd i deulu – a'r cyfan o fewn cwmpas o 150 milltir.

Yna, dychmygwch lawer o goed gyda llawer o bobl yn eu meithrin, yn gweithio i gwmnïau cynaeafu, hen gwmnïau neu rhai newydd yn gwneud fframiau pren a thai modwlar, nes bod llawer o dai a swyddi newydd yn cael eu creu gan ddefnyddio sgiliau newydd.

Dychmygwch yr effaith ar economi Cymru wledig pe byddai'r twf yn y dinasoedd o amgylch ardaloedd gwledig canolbarth a gorllewin Cymru yn dod o adeiladu tai mewn coed sy'n cael ei dyfu'n lleol, ac yn cael ei brosesu a'i weithgynhyrchu'n gartrefi modern sy'n defnyddio ynni'n effeithlon.

Dyna uchelgais prosiect Cartrefi o Bren Cynhenid sy'n brosiect cadwyn gyflenwi hirdymor gyda'r nod o newid agweddau tuag at ddefnyddio pren meddal o Gymru, a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n amlach gan gwmnïau mawrion sy'n adeiladu tai mewn datblygiadau preswyl, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Bydd hyn o fudd i economi'r ardaloedd lle bydd y coed yn tyfu ac yn cael eu prosesu, a'r mannau lle bydd y tai'n cael eu gweithgynhyrchu.

Mae'n bleser gen i fod yma heddiw i lansio Prosiect Cartrefi o Bren Cynhenid yn swyddogol ar ran Cyngor Sir Powys, ei brif bartneriaid a grŵp llawer ehangach o randdeiliaid.

Mae'r prosiect yn deillio o syniad digon syml. Yn 2015, daeth CS Powys yn rhydd o gyfyngiadau trefn cymhorthdal HRA, gan adennill yr hawl i godi cartrefi. Fel cyngor roeddem am ddefnyddio'n gallu newydd i godi tai a fyddai'n:

- Cael effaith bositif hirdymor ar yr economi lleol, nid trwy gyflogi contractwyr yn unig, ond trwy arallgyfeirio'r economi lleol a lleihau'r nifer o aelwydydd economaidd weithgar sy'n gadael yr ardal

- Cyflenwi cartrefi modern o ansawdd da sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac yn gadael yr ôl troed carbon lleiaf posibl.

Er mwyn cyflenwi'r amcanion hyn, fe wnaethom ni gydnabod bod angen i ni ddatblygu ein cartrefi newydd trwy ddefnyddio pren cynhenid a phren a dyfwyd yn lleol. Yna fe wnaethom ni ystyried yr effaith luosogi pe byddem ni'n cynnwys y cymdeithasau tai sy'n bartneriaid â ni. Dyna sut y sefydlwyd y bartneriaeth.

Dechreuodd y prosiect gyda'r cymdeithasau tai hyn ac fe wnaethom gydnabod yn fuan nad yw'r gadwyn cyflenwi pren yng Nghymru, fel y mae hi ar hyn o bryd, yn gweithio'n iawn. Yr unig ffordd y gallem gyflawni amcanion y prosiect fyddai trwy geisio trawsffurfio'r gadwyn gyflenwi ei hun.

Ariannwyd prosiect Cartrefi o Bren Cynhenid i ddechrau gan y partneriaid, ac yna gyda chyllid ARWAIN. Yn 2017 denodd y prosiect gyllid cadwyn cyflenwi a chydweithredu Cronfa Ddatblygu Gwledig yr UE gwerth £1.3 miliwn, a thros y misoedd diwethaf, mae CS Powys wedi bod yn rhan o ymarfer caffael i benodi partner i reoli'r prosiect ar ein rhan.

Rwy'n falch gallu dweud ein bod wedi penodi consortiwm ddiwedd Mawrth 2018 i reoli'r prosiect. Arweinydd y consortiwm yw Wood Knowledge Wales, ac mae'n defnyddio arbenigedd TRADA, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a chwmni Coed Cymru. Cafodd ansawdd cyflwyniad y consortiwm effaith eithriadol ar fy nghydweithwyr, a oedd yn teimlo ei fod wedi rhoi anadl einioes i weledigaeth y prosiect.

Felly beth fydd y prosiect yn ei wneud? Mae nifer o elfennau ynddo:

1. Cynorthwyo â dylunio, cyflenwi a mesur perfformiad yr adeiladwaith pren pan fydd wedi'i gwblhau – trwy ddarparu cyngor arbenigol a chymorth i gleientiaid, a sicrhau eu bod yn defnyddio'r pren yn y ffordd gywir a mesur sut y mae cartrefi'n perfformio mewn gwirionedd.
2. Datblygu achos y cleient dros gaffael tai pren (gan ganolbwyntio'n bennaf ar gleientiaid RSL ac Awdurdodau Lleol)
3. Datblygu cynnig gweithgynhyrchwyr cynnyrch pren o Gymru i'r cleientiaid – mae hyn yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu eu gallu

gweithgynhyrchu oddi ar y safle yn achos y gweithgynhyrchwyr lleol, gan ddatblygu sgiliau gweithlu'r dyfodol wrth ddefnyddio pren ar gyfer adeiladu

4. Datblygu a phrofi'r achos economaidd dros annog perchnogion tir i blannu coed ar dir ymylol yng Nghymru – yn hyn o beth, mae'n bwysig gallu gweld cynnydd y coedwigoedd yng Nghymru o 14% sef y ffigwr presennol i rywbeth yn debyg i'r cyfartaledd yn Ewrop, sef 37%.
5. Cyfathrebu deilliannau'r prosiect a dylanwadu ar gaffael yn y dyfodol – gwefan, gweithdai, cynadleddau.

Mae'n anochel y bydd angen i rôl y bartneriaeth newid yng ngoleuni penodi partner rheoli, a byddwn yn cyhoeddi cynigion yn fuan ar sut y bydd y prosiect yn cael ei lywodraethu, a'n cynlluniau i ehangu amrywiaeth y rhanddeiliaid i gynnwys unrhyw landlord cymdeithasol yng Nghymru ac o bosibl unrhyw ddatblygwr preifat â diddordeb.

Mae amseriad y prosiect yn berffaith gan ei fod yn digwydd ar adeg pan mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod Bargen Twf Canolbarth Cymru, a phan mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr angen i drawsffurfio'r gadwyn gyflenwi pren.

Gallai'r prosiect yma fod yn rhan allweddol o drawsffurfiad economi gwledig Cymru. Mae'n darparu cyfle i ffermydd arallgyfeirio'u hincwm, a fydd yn hanfodol ym Mhrydain ar ôl Brexit. Bydd yn darparu rhagor o gyfleoedd i gyflogi mewn ardaloedd gwledig, gan y bydd angen tyfu'r glasbrennau, plannu a rheoli fforestydd, prosesu pren a gweithgynhyrchu tai â fframiau pren. Mae Cabinet Cyngor Sir Powys yn cydnabod bod hyn yn ymrwymiad i fabwysiadu Polisi Annog Defnyddio Pren, sydd yn ei dro'n ein hymrwymo i ddefnyddio cymaint ag y gallwn o bren lleol a phren cynhenid yn ein holl ddatblygiadau tai newydd.

Mae Cabinet Cyngor Sir Powys yn cydnabod bod gan ddatblygu tai ran hanfodol i'w chwarae yn yr economi lleol, ac mae ganddo gynlluniau uchelgeisiol i adeiladu 250 o dai newydd dros y 4 blynedd nesaf. Ond rydym hefyd yn cydnabod y gallai Cartrefi o Bren Cynhenid gael effaith fuddiol hirdymor ar economi Cymru wledig – felly byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau llwyddiant y prosiect.